

CLOCIAU

GAN Ceri Elen

CYMERIADAU

Corws

Arwel – bachgen rhwng 10 a 13 mlwydd oed.

Taid – taid Arwel

Nain – nain Arwel

Wil Bach – brawd Arwel – mae'n llawer iau na'r gweddi.

Ffrind o Affrica (llais yn unig o bosib)

Becca – chwaer Arwel

Harriet – chwaer Arwel

GOLYGFA 1

Mae corws bach ar y llwyfan. Dylid rhannu'r corws yn dri grŵp – fel y gwelir isod. Dylai grŵp un ddechrau, grŵp dau ymuno ac yna grŵp tri - i greu haenau o sŵn.

Grŵp 1:

Tic

Toc

Tic

Toc

Grŵp 2:

Tic toc tic toc tic toc tic toc

Grŵp 3:

Tic-toc

Tic-toc

Tic-toc

Tic-toc

Mae Arwel yn gorwedd yn ei wely, mae'r corws yn creu y sŵn uchod sy'n cryfhau o hyd ac o hyd gan greu haenau o sain. Wedi i'r sŵn godi'n uchel iawn – mae Arwel yn deffro – mae'r sŵn yn peidio oni bai am un set o dipiadau fel cloc Taid. Mae Arwel yn codi. Mae'n mynd i'r gegin (sydd ar ochr arall yr ystafell) at Taid. Mae hwnnw'n darllen.

Arwel: Taid? Pam rydech chi ar eich traed mor hwyr?

Taid: Mond darllen ydwi. Dwi methu rhoi hwn i lawr! Be wnaeth dy ddeffro di?

Arwel: Cael y freuddwyd gas na nesh i eto.

Taid: Yr un un?

Arwel: Ie. Yr hen glaciau yna. Dim ond un dwi'n ei weld i ddechrau, yna un arall ac un arall. A dwi'n eu gweld nhw yn llefydd rhyfedda. Mewn caeau, mewn llynnoedd, mewn coed. Ond heno mi weles i gloc Taid anferth – roedd o'n llawer mwy na fi – yn llawer mwy na'r tŷ yma hyd yn oed. 'Roeddwn i'n edrych i fyny arno, ac yn araf bach

‘roeddwn i’n gweld ei fod o’n llenwi gyda dŵr. Ac ‘roedd y dŵr yn codi’n uwch ac yn uwch o hyd y tu mewn iddo, yn pwyso ar y drws bach. Ac roeddwn i’n gwybod fod y dŵr yn mynd i ffrwydro a thasgu allan, ond ‘doedd dim y gallwn ei wneud am y peth. Fe wnes i ddeffro – diolch byth, un eiliad cyn i’r dŵr ddod allan o’r cloc.

Taid: Arwel bach, hen lol wirion. Dos di nôl i gysgu. Mi ddaw’r bore cyn i ti droi. A mi ddyle’r llythyr gan dy ffrind o Affrica gyrraedd ‘fory. Digon i edrych mlaen ato.

Yn amlwg, nid yw’r ateb yma’n cysuro dim ar Arwel. Mae Taid yn trio eto.

Taid: Gwranda, paid â phoeni. Mi ddoi di i ddeall beth mae’r freuddwyd yma’n ei golygu. Dwi’n sicr i ti.

Arwel: Dydw i ddim yn meddwl mod i eisiau deall!

Taid: O ddeall, mae pethau yn mynd yn llawer llai ofnus wsti. O ddeall ein gilydd a deall y byd – mae ofn yn mynd. Paid â phoeni – mi ddaw’r cyfan i ti yn ei amser.

Arwel: Gobeithio hynny. Nos da Taid.

Taid: Nos da.

Mae Arwel yn mynd nôl i ochr arall y llwyfan i’w wely. Mae Arwel yn dechrau cygsu. Mae’r montage isod yn adeiladu fel o’r blaen.

Tic

Toc

Tic

Toc

Tic toc tic toc tic toc tic toc

Tic-toc

Tic-toc

Tic-toc

Tic-toc

GOLYGFA 2

Mae'r tician yn parhau o ddiwedd yr olygfa ddiwethaf i ddechrau'r olygfa hon. Yn sydyn mae Arwel yn deffro. Mae'n neidio o'i wely, wrth i'r tician ddod i ben. Mae'n rhedeg i'r 'gegin' sydd ar ochr arall y llwyfan. Mae dwy chwaer a brawd Arwel yn eistedd wrth y bwrdd gyda Taid a Nain.

Nain: Bore da.

Arwel: Bore da.

Taid: 'Doedden ni ddim am dy ddeffro di wedi iti gael noson wael niethiwr.

Beca: Ha ha – mae Arwel ofn bwcio bos ac yn methu cysgu! Babi mam!

Hariet: Ha ha babi mami – methu cysgu yn dy wely! Ha ha!

Nain: Dyna ddigon! Dydw i ddim isho clywed dim mwy! Dudwch sori wrth Arwel ferched.

Hariet a Beca: Sori. *(yn bwdlyd)*

Tawelwch.

Wil bach: *(Yn sibrwd drosodd at Arwel)* Dwi'm yn meddwl dy fod di'n fabi Mami sdi.

Mae Arwel yn gwenu. Gyda hynny mae Nain yn dod a llythyr at y bwrdd.

Nain: Ddoth hwn i ti bore ma.

Beca: Llythyr! Gan dy gariad! (Hi hi hi!)

Arwel: Yli Wil, llythyr o Affrica ydi o!

Wil bach: Gan dy ffrind?

Arwel: Ie.

Wil bach: Darllena fo'n uchel i ni gyd gael clywed.

Arwel: Iawn.

Mae pawb yn gwranddo'n astud.

Arwel: "Annwyl Arwel" *(gall merch gymryd y rhan hwn fel rhyw fath o droslais o gefn y llwyfan yn awr.)*

"Gobeithio dy fod di'n iawn. Dwi'n eich methu chi i gyd ar ôl symud yma i Affrica, ond mae pethau'n mynd yn dda. Dwi'n dechrau dod i arfer gyda'r gwres, ac mae'r

bwyd yn dda iawn. Mae'r bobl yn glên iawn yma hefyd, ac mae Dad yn mwynhau ei swydd newydd.

Mae 'na un peth yn fy mhoeni i Arwel. Dwi'n cael breuddwyd gas bob nos. Rydw i'n mynd i gysgu ac yn clywed sŵn clociau ym mhob man. Yna rydw i'n dechrau eu gweld nhw yn y coed, yn yr afon, mewn llynnoedd - ym mhob man. Ond yn waeth na hynny, un wrth un, mae nhw'n dechrau mynd ar dân neu'n meddalu fel petai popeth yn mynd yn rhy boeth. Mae'n codi ofn arna'i braidd. Ond mae Mam yn dweud wrtha'i am beidio poeni ac y gwneith y freuddwyd gilio yn y diwedd. Gobeithio hynny!

Cofion mawr atat ti, a chan obeithio dy weld dros yr haf,

Cati"

Nain: Dyna ryfedd 'te Arwel? Y ddau ohonch chi'n cael breuddwyd debyg.

Wil bach: Mae'n swnio'n debyg i freuddwyd rydw i'n ei chael bob nos!

Beca: A dweud y gwir . . . rydw i'n cael un debyg hefyd . . .

Hariet: a finnau!

Taid: Rargol. Ydi holl blant y byd yn breuddwydio am glocioau yn llenwi â dŵr neu'n mynd ar dân? Mae hyn yn od.

Yn sydyn -

Arwel: Taid! Fe wn i beth sy'n bod!

Taid: Wyddost ti?

Arwel: Poeni ryden ni!

Nain: Poeni?

Arwel: Am y newid hinsawdd!

Beca: Newid hinsawdd? Beth ydi peth felly?

Wil bach: Y ffaith fod y ddaear yn mynd yn gynhesach, a'r rhew ym Mhegwn y Gogledd yn meirioli, a llifogydd yn dod yn amlach o hyd . . .

Hariet: Ond beth sydd ganddo ni i neud gyda'r peth? Fedrwn ni wneud dim, felly pam ddylen ni boeni?

Arwel: Ond dyna'r pwynt! Fe allwn ni wneud rhywbeth!

Beca: Fel beth?

Arwel: Llawer iawn o bethau! Troi'r teledu i ffwrdd ar ôl gorffen gydag o. Darllen llyfr yn hytrach na chwarae ar y cyfrifiadur. Cerdded yn hytrach na mynd mewn car. Tyfu llysiau yn yr ardd yn lle eu prynu – fydd ddim angen cael awyrennau i gario'r holl fwyd wedyn na fydd, ac fe fydd llai o lygredd yn yr awyr. Ac fe allwn ni ail-gylchu pethau.

Harriet: Ail-gylchu?

Wil bach: Ie! Mae ail-gylchu yn golygu ein bod yn ail-ddefnyddio pethau gan arbed ynni yn hytrach na wastio mwy o hyd.

Hareit: Ond dydw i ddim yn deall! Pam fo rhaid inni wneud hyn?

Arwel: Oherwydd fod y byd yn cynhesu – ac mae hynny'n achosi problemau. Fe ddywedodd Mr Jones yn yr ysgol ddoe:

Arwel a'r corws: Os bydd pethau'n parhau fel maen nhw, ni fydd Pegwn y Gogledd yn bodoli yn ei ffurf bresennol mewn tair blynedd. Ffaith.
Os bydd tymheredd y blaned yn codi 4°C, gall anialwch y Sahara ymestyn i fyny mor bell â Ffrainc. Ffaith. Ar gyfartaledd mae pob person yng Nghymru yn creu 11 tonnell o garbon deuocsid mewn blwyddyn . Ffaith.
Mae pob person yn Kenya, ar gyfartaledd yn creu 0.2 tonnell o garbon deuocsid mewn blwyddyn. Ffaith.

Arwel: Fe allwn ni wneud gwahaniaeth!

Nain: Wel beth am ddechrau heddiw? Ac fe gawn ni weld os y gwnewch chi gysgu'n dawelwch heno. Ie?

Arwel: Iawn!

Corws: Tic-toc

Tic-toc

Tic-toc

GOLYGFA 3:

Daw Arwel i'r llwyfan yn gyffro i gyd. Mae Wil ar y llwyfan yn barod yn darllen.

Arwel: Hei Wil! Nei di fyth gredu beth weles i ar y ffordd i'r siop y bore 'ma! Nyth adar, a dau wy ynndo fo! Fyddwn i fyth wedi gweld rheini petawn wedi mynd yn y car hefo Taid. Wil?! Ti'n gwrando?

Wil bach: mmm?

Arwel: Beth ti'n neud?

Wil: Darllen. Tân ar y comin. Mae o'n class!

Daw'r merched i'r llwyfan wedi'u gwisgo mewn dillad wedi'u hail-gylchu o blastig a phapur. Mae'r ddwy'n chwervthin.

Beca / Harriet: Drychwch fechgyn! Ha ha!

Mae Arwel a Wil yn chwervthin.

Beca: Ryden ni wedi cael gymaint o hwyl yn gwisgo i fyny mewn deunyddiau ail-gylchu! Loads o hwyl!

Mae'r merched yn rhoi het ar ben Wil a sgarff am wddw Arwel. Mae nhw'n chwervthin. Tawelu.

Harriet: Mi oedd hyn yn syniad ofnadwy o dda Arwel!

Arwel: Dim ond gobeithio y gwneith o weithio ac y cawn ni gysgu'n dawel heno!

Wil bach: Dwi'n sicr y gwneith o Arwel. Dwi'n sicr.

Mae'r pedwar yn gwenu. Daw Arwel i flaen y llwyfan wrth i'r cymeriadau eraill ymuno â'r corws.

Arwel: Ac yn wir, fe wnes i a Wil bach, Becca a Harriet gysgu'n dawel iawn y noson honno. Dim clociau yn agos. Neb yn cael breuddwydion cas – a phawb yn teimlo'u bod nhw wedi gwneud rhywbeth i helpu'r blaned – i sicrhau ein dyfodol ni. Ac fe gawson nhw gymaint o hwyl yn gwneud hynny hefyd! Pan mae amser yn beth prin, mae'n rhaid gwenu y mwyaf ohono. Pob un ohonon ni. Rhaid inni ddechrau nawr.

Corws i gyd: Tic-toc
Tic-toc
Tic-toc.

Arwel: Cysgwch yn dawel heno!

Corws: Tic-toc, tic-toc, tic-toc. (*yn arafu i ddim a phawb i roi eu pennau i lawr ar y diwedd.*)